



Mae wedi bod bron i 4 fis ers i gyfyngiadau symud y coronafeirws gael eu cyflwyno, ac roeddwn innau fel llawer eraill yn bryderus am sut y byddai'r dyddiau o'n blaenaf yn edrych. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn gyflym y byddai'n rhaid i mi weithio gartref, bod yn athro cynorthwyol i'm dau blentyn, ac y byddai'n rhaid gwneud rhai newidiadau sylweddol yn y pen draw i'r ffordd y byddwn yn byw i gadw ffrindiau, teulu a'r cyhoedd yn ddiogel. Mae hyn wedi profi'n gyfnod nid yn unig o her, ond yn un o gyfleoedd.

Roedd y dechrau yn teimlo'n gymharol syml. Roedd y ffaith fy mod i wedi gweithio gartref o'r blaen yn fanteisiol, ond mae addysg gartref gyda'r rhai bach wedi cymryd amser i ddod i arfer ag ef; gwneud gwaith paratoi ymlaen llaw, gan eu helpu nhw, ac wrth gwrs ymgymryd â'r marcio bondigrybwyll – nawr rwy'n gweld pam mae athrawon yn gwneud hyn gyda'r nos. Rwy'n meddwl hefyd fod fy merch wedi bod yn hwyr i'r ysgol gartref bob dydd ond un.

Ar ôl teimlo bod yr wythnos gyntaf wedi mynd heibio yn gyflym iawn, roedd yn ymddangos bod pethau bron ar unwaith yn dechrau arafu, ac yn ystod y cyfnod hwn y daeth yn amlwg i mi nad oedd rhywbeth yn hollol iawn. Gwaith, dysgu, aros am ddarllediad dyddiol y llywodraeth, ambell daith gerdded, ac roedd yr ymweliad anaml â'r archfarchnad yn drefn yr oeddwn wedi dod i arfer ag ef, ond roedd rhywbeth ar goll, a doedd hyn ddim yn ddigon.

Roeddwn i angen rhywbeth i mi yn ystod y cyfnod anodd hwn, rhywbeth y gallwn i gael fy nannedd iddo, a rhywbeth o fyfyrto arno y gallwn i ddweud fy mod wedi gwneud gwaith da. Mae cyllid yn rhywbeth sydd o ddiddordeb personol i mi ac felly fe wnes i gofrestru i ymgymryd ag ychydig o gyrsiau yn y maes hwn a hyd yn hyn rwyf wedi cwblhau'n llwyddiannus dystysgrif Dadansoddiad Ariannol lefel 3.

Yn ogystal â hyn, dewisais hefyd i weithio ar fy niet a ffitrwydd. Gyda fy oriawr Garmin yn barod, rwyf bellach wedi bod yn rhedeg 4 gwaith yr wythnos (15 milltir yr wythnos ar gyfartaledd) am y mis diwethaf, fwy neu lai, ac mae'n eithaf boddhaol bod fy oriawr yn dweud wrthyf fod gennyf ffitrwydd rhywun 29 oed. Yn ystod y cyfnod hwn rwyf hefyd wedi gwella fy niet drwy fwyta llai o fyrbrydau ac yfed llai o alcohol gan golli 5 pwys – llwyddiant!

Nid wyf yn twyllo fy hun na fydd y cyfnod sydd i ddod yn parhau i fod yn her. ER hynny, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y gall cyflawni heriau newydd a llwyddo mewn ychydig o gerrig milltir wneud gwahaniaeth sylweddol i'm lles o ganlyniad i hynny.

Chris